

CWRDD Â NHW

15 MUNUD



Mae Johanna Vos yn Astroffisegwr yn yr American Museum of Natural History yn Efrog Newydd. Astudia batrymau tywydd ar blanedau sy'n cylchdroi o gwmpas sêr y tu hwnt i'n system solar, o'r enw planedau allheulol. Enillodd radd Baglor mewn Ffiseg gydag Astroffiseg yn Trinity College yn ei dinas enedigol, Dilyn. Wedyn, treuliodd 4 blynedd ym Mhrifysgol Caeredin gan ennill PhD mewn Astronomeg o'r Royal Observatory of Edinburgh. Ers hynny, mae wedi byw a gweithio yn Efrog Newydd gan gynnal gwaith ymchwil, mentora myfyrwyr ysgol a phrifysgol a rhannu rhyfeddodau'r Bydysawd â'r cyhoedd.

Yn gyntaf, gwyliwch Johanna yn siarad am ei gyrfa.

Trafod:

- Beth yw eich barn am y fideo?
- Beth yw eich barn am yrfa Johanna?
- Beth ydych chi'n meddwl yw'r gweithgaredd fwyaf anodd i'w wneud yn y gofod?



GWEITHGARGEDDAU

40 MUNUD

GWNEWCH

Cynhwysion: mynediad at y rhyngrwyd, malws melys, ffyn coctel, papur a phin ysgrifennu (neu rywle i ysgrifennu nodiadau)

Yn fideo Johanna, mae'n sôn am La Silla Observatory yn Chile, lle all astroffisegwyr edrych ar y sêr yn fwy rhwydd. Yn y gweithgaredd hwn, byddwch yn edrych yn fanylach ar y sêr a'r cytserau maen nhw'n eu ffurfio. Cytser yw grŵp o sêr sy'n ffurfio amlinelliad neu batrwm.

1. Ewch i stardate.org a dewiswch un o'r cytserau o'r wefan hon.
2. Nawr, ail-grëwch eich cytser dewisol gyda malws melys a ffyn coctel. Bydd y malws melys yn cynrychioli'r sêr a'r ffyn coctel yn cynrychioli amlinelliad eich cytser. Gallwch dorri'r ffyn coctel yn ddarnau llai i ail-greu eich cytser.
3. Ewch ati i wneud gwaith ymchwil ynghylch eich cytser. A oes enwau i unrhyw rai o'r sêr yn eich cytser? Sawl blwyddyn oleuni i ffwrdd yw'r sêr yn eich cytser?



Awgrym: Yn hytrach na malws melys, gallech ddefnyddio plastisin neu glai.

NEU

ARCHWILIWCH

Cynhwysion: pinnau ysgrifennu, papur, pensiliau lliw

Fel rhan o'i gyrfa, mae Johanna yn chwilio am blanedau sydd y tu hwnt i'n system solar. Yn y gweithgaredd hwn, byddwch yn dylunio eich planed eich hun i Johanna ac astroffisegwyr eraill ei darganfod. Ystyriwch

1. Ym mha alaeth mae eich planed?
2. A oes bywyd ar eich planed? Sut mae'n edrych? A yw eich planed yn graig neu'n blaned nwyol?
3. Beth yw'r tymheredd ar eich planed?
4. Oes ganddi unrhyw gylchau? Pa liw yw eich planed?

Tynnwch lun o'ch planed ac ychwanegwch labeli er mwyn i ni gyd ddysgu mwy ynghylch eich planed.

